Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 08 Mawrth 2018

**Paratowyd ar gyfer y Pwyllgor Materion Allanol**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Nia Moss a Manon George**
Dyddiad: **Mawrth 2018**
Rhif Papur: **18-024**

## Cysylltwch â ni

**Nia Moss**
**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6313**
: **Nia.Moss@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 08 Mawrth 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# 1.Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Thrafodaethau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ers 8 Chwefror. Ers i'r adroddiad hwn gael ei lunio diwethaf, mae Tasglu Erthygl 50 y Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi testun cyfreithiol drafft ar gyfer y Cytundeb Ymadael, mae'r Cyngor Ewropeaidd wedi cyhoeddi ei ganllawiau negodi drafft ar y berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE, ac mae Senedd Ewrop wedi cyhoeddi ei phenderfyniad drafft ar y fframwaith am berthynas yn y dyfodol. Yn y DU, gwnaeth y Prif Weinidog araith yn amlinellu rhagor o fanylion am flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. Yn dilyn methiant Llywodraeth Cymru i ddod i gytundeb â'r Llywodraethau Datganoledig ar welliannau i Fil yr UE (Ymadael), mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno biliau 'parhad' brys.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau, y dogfennau a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd
- Dadansoddiad o'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ("y Pwyllgor"); a
- Chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Ar 12 Chwefror, cynhaliodd Pwyllgor Materion Allanol y Cynulliad **sesiwn dystiolaeth** gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar Fil Masnach Llywodraeth y DU. Dywedodd eto na all Llywodraeth Cymru argymell bod y Cynulliad yn rhoi ei gydsyniad i'r Bil oni bai ei fod yn cael ei ddiwygio.

Ar 14 Chwefror, gwnaeth Boris Johnson, Ysgrifennydd Tramor y DU, araith o'r enw **"Uniting for a Greater Brexit".** Gwnaeth y Prif Weinidog araith am gydweithio yn y dyfodol o ran amddiffyn a diogelwch rhwng y DU a'r UE yng nghynhadledd Diogelwch Munich ar 17 Chwefror.

Ar 20 Chwefror, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE **araith** ynghylch y bartneriaeth economaidd yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE lle dywedodd y byddai'r DU yn cynnal ei safonau rheoliadol ar ôl gadael yr UE.

Ar 20 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ei hymateb cychwynnol** i'r cymalau cyfreithiol drafft ar y Cytundeb Ymadael **a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd** ar 7 Chwefror.

Ar 22 Chwefror cyfarfu **Cydgyngor y Gweinidogion ar Drafodaethau'r UE** (JMC EN) yn Llundain. Mae'n dod â Gweinidog o Lywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig at ei gilydd. Methodd Llywodraeth y DU i ddod i gytundeb â'r Llywodraethau Datganoledig ar **welliannau arfaethedig i Fil yr UE (Ymadael)** ar ei ddarpariaethau datganoli.

Ar 26 Chwefror, gwnaeth Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn **araith** am ddatganoli, Brexit a'r Bil Ymadael lle dywedodd fod Llywodraeth y DU wedi gwneud 'cynnig' sylweddol i'r Llywodraethau Datganoledig mewn ymgais i ddod i gytundeb ar y Bil.

Ar 27 Chwefror, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid Llywodraeth Cymru **ddatganiad** ar drafodaethau'r JMC(EN) lle dywedodd fod cynnydd wedi'i wneud o ran dod i gytundeb â Llywodraeth y

DU ar y Bil Ymadael. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd y cynigion a wnaed gan Lywodraeth y DU yn ddigonol er mwyn bodloni pryderon Llywodraeth Cymru ac felly byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno bil brys i ddiogelu setliad datganoli Cymru ar ôl Brexit.

Ar 27 Chwefror, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol **araith** ar ddyfodol masnachu Prydain.

Ar 28 Chwefror, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **destun cyfreithiol drafft** ar gyfer y Cytundeb Ymadael i'w drafod gyda'r Cyngor a Senedd Ewrop. Roedd y testun yn cynnwys protocol ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon a oedd yn awgrymu y dylai Gogledd Iwerddon aros yn yr Undeb Tollau pe na fyddai cytundeb yn cael ei wneud rhwng y DU a'r UE ar sut y gellir osgoi ffin galed. **Ymatebodd y Prif Weinidog** i'r cynigion yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog yr un prynhawn. Hefyd, cyhoeddodd Senedd Ewrop **ymateb** i'r testun cyfreithiol drafft arfaethedig.

Ar 2 Mawrth **gwnaeth y Prif Weinidog araith** ar bartneriaeth economaidd y DU yn y dyfodol â'r UE lle nododd pum prawf ar gyfer cytundeb yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE. Roeddent yn cynnwys ei fod yn gweithredu penderfyniad y refferendwm; ei fod yn sicrhau cytundeb parhaus hirdymor; ei fod yn amddiffyn diogelwch a ffyniant y DU; ei fod yn gyson â'r math o wlad y mae Llywodraeth y DU am i'r DU fod a'i fod yn cryfhau undeb gwledydd y DU.

Ar 6 Mawrth **cytunodd y Cynulliad ar Gynnig** i ganiatáu i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â chyflwyno Bil brys, **Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen y Bil er mwyn amddiffyn y setliad datganoli presennol pe na fyddai cytundeb yn cael ei wneud gyda Llywodraeth y DU ar welliannau i Fil yr UE (Ymadael). Cafodd y Bil ei osod yn ffurfiol ar 7 Mawrth. Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru mai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio o hyd yw dod i gytundeb â Llywodraeth Cymru ar Fil yr UE (Ymadael).

Ar 7 Mawrth, cyhoeddodd Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, Donald **Tusk ganllawiau negodi drafft** ar gyfer fframwaith ar y berthynas â'r DU yn y dyfodol. Disgwylir i'r Cyngor fabwysiadu'r canllawiau yn ei gyfarfod ar 22-23 Mawrth. Mae Senedd Ewrop hefyd wedi cyhoeddi **testun drafft cynnig** yn amlinellu ei barn ar y testun cyfreithiol drafft ar y Cytundeb Ymadael a'i barn ar fframwaith ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol.

Ar yr un diwrnod rhoddodd Canghellor y Trysorlys **araith** ar y Gwasanaethau Ariannol lle amlinellodd y gellid cynnwys cydweithio â'r UE yn y meysydd hyn o fewn cytundeb â'r UE yn y dyfodol.

Yn ystod misoedd ac wythnosau diweddar, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi cyfres o briffiau parodrwydd i ddinasyddion a busnesau ar y DU yn gadael yr UE a chyfres o sleidiau wedi'u paratoi i lywio trafodaethau yr UE yn fewnol ar y berthynas yn y dyfodol. Cafodd y dogfennau diweddaraf mewn perthynas â pharodrwydd eu cyhoeddi ar 27 Chwefror ar **drafnidiaeth rheilffordd, trafnidiaeth forol, diogelwch defnyddwyr a hawliau teithwyr ac iechyd a lles anifeiliaid**. Cafodd y cyfresi diweddaraf o sleidiau eu cyhoeddi ar 21 Chwefror ar faterion **trafnidiaeth, symudedd** a **rheoliadol**.

# Y datblygiadau a'r dogfennau diweddaraf a gyhoeddwyd

## Trafodaethau

Ar 28 Chwefror, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **destun cyfreithiol drafft i weithredu'r Cytundeb Ymadael**. Cafodd y testun ei anfon i'r Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop ar gyfer trafodaethau cyn y bydd yn cael ei rannu â'r DU fel rhan o'r trafodaethau. Mae'r testun yn cynnwys 6 Rhan ar ddarpariaethau cyffredin, hawliau dinasyddion, darpariaethau ar wahân, pontio, darpariaethau ariannol a darpariaethau sefydliadol a therfynol. Mae hefyd yn cynnwys protocol a awgrymir ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Yn ei **daflen ffeithiau cwestiynau ac atebion** ar y testun arfaethedig, mae Comisiwn yr UE yn nodi, o ran hawliau dinasyddion, bod y testun drafft yn adlewyrchu beth y cytunwyd arno yn y Cyd-adroddiad rhwng y DU a'r UE ym mis Rhagfyr ac yn cynnwys rhagor o fanylion i lenwi'r bylchau nad ydynt wedi'u trafod yn benodol gan yr Adroddiad. Mae hefyd yn cyfleu cynnig y Comisiwn sy'n trafod gwŷr, gwragedd a phartneriaid sifil yn y dyfodol i mewn i delerau cyfreithiol.

Mae'r protocol ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon yn cynnwys, yr hyn mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei alw yn sefyllfa 'disgyn yn ôl' pe byddai'r DU a'r UE yn methu â chyrraedd cytundeb ar y ffin rhwng y ddwy wlad. Pe byddai'n cael ei weithredu byddai angen aliniad llawn rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon ar y cyfreithiau yn ymwneud â nwyddau, fferylliaeth a rheolau iechyd planhigion ac yn gofyn i Ogledd Iwerddon gael eu cynnwys yng nghod tollau'r UE hyd yn oed os yw'r DU yn dewis gadael yr Undeb Tollau.

Mae Rhan 6 o'r testun drafft yn gosod cynnig ar gyfer trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cytundeb Ymadael. Mae'n awgrymu sefydlu Cydbwyllgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r UE a'r DU i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r cytundeb. Bydd gan yr UE a'r DU atebolrwydd i'r Pwyllgor hwn mewn achos o anghydfod a gall y Pwyllgor benderfynu cyflwyno'r anghydfod i Lys Cyfiawnder Ewrop ar gyfer penderfyniad. Bydd penderfyniadau gan y Llys Cyfiawnder yn rhwymo'r UE a'r DU.

Mae'r Prif Weinidog wedi datgan bod Llywodraeth y DU wedi gwneud ei hamcanion yn glir ar rai elfennau o'r testun cyfreithiol drafft i'r Comisiwn Ewropeaidd. Gan ymateb yn ystod prynhawn y cyhoeddi, dywedodd y Prif Weinidog:

> *We continue to stand behind all the commitments that we made in December, and my negotiating team will work with the Commission to agree how they should be translated into legal form in the withdrawal agreement. The hon. Gentleman is right: the draft legal text that the Commission has published would, if implemented, undermine the UK common market and threaten the constitutional integrity of the UK by creating a customs and regulatory border down the Irish Sea, and no UK Prime Minister could ever agree to it. I will be making it crystal clear to President Juncker and others that we will never do so.*

Yn dilyn hyn, ar 2 Mawrth, **gwnaeth y Prif Weinidog araith** ar bartneriaeth economaidd y DU yn y dyfodol â'r UE lle mae'n nodi pum prawf ar gyfer y berthynas a restrir yn adran crynodeb y papur hwn. Yn ogystal ag amlinellu'r pum prawf, dywedodd y Prif Weinidog:

- Ni fyddai dod i gytundeb tebyg a'r UE fel y cytunwyd arno rhwng yr UE a Chanada ar fasnach rydd yn addas gan y byddai'n lleihau mynediad i'r farchnad yn sylweddol ar gyfer y DU a'r UE;

– Gallai'r DU geisio sicrhau aelodaeth gyswllt â rhai o asiantaethau presennol yr UE ac wrth wneud hynny byddai'n parchu cylch gwaith Llys Cyfiawnder Ewrop mewn perthynas â'r cyrff hyn. Soniwyd yn benodol am yr Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd, Asiantaeth Cemegolion Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Hedfan Ewrop.

– Er gwaetha'r materion ar asiantaethau, bydd awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben yn y DU a bydd angen sefydlu mecanwaith cymrodeddu annibynnol i lywodraethu unrhyw gytundeb ar y berthynas yn y dyfodol.

– Gallai'r DU gadw rhai meysydd o reoliadau yr un fath fel ar gymorth y wladwriaeth ond mewn rhai achosion lle byddai'r DU yn cynnal aliniad o ganlyniadau rheoliadol a safonau gallai weithredu'r rhain mewn ffyrdd gwahanol i'r DU. Felly byddai'r DU yn ceisio cael system gynhwysfawr o gydnabyddiaeth o'r ddwy ochr o ran safonau ar gyfer nwyddau.

– Nid oedd y DU am weld unrhyw dariff neu gwotâu yn cael eu cyflwyno ar nwyddau rhwng y DU a'r UE.

– Bydd hynny, yn ogystal â chytundeb masnachu rhydd, bydd y DU yn ceisio cael cytundeb â'r UE ar ddiogelu data, cydweithredu ynni, trafnidiaeth, y farchnad ddigidol, cydweithredu barnwrol sifil, gwyddoniaeth ac arloesedd, addysg a diwylliant.

– Bydd y DU yn gadael yr Undeb Tollau ond bod angen cytundeb tollau rhwng y DU a'r UE. Ailadroddodd y Prif Weinidog y ddau opsiwn ar gyfer trefniad tollau newydd a gynigir gan Lywodraeth y DU ar 15 Awst 2017.

– Byddai'r DU yn cydweithredu â'r UE ar rannu rheoli stociau pysgodfeydd ac am gytuno ar fynediad cytbwys i'r dyfroedd.

Ar 7 Mawrth, cyhoeddodd Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, Donald Tusk **ganllawiau negodi drafft** ar gyfer fframwaith ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Wrth gyhoeddi'r canllawiau, **dywedodd Mr Tusk**:

> *Now, coming to the core of our future economic relationship. During my talks in London last Thursday, and in her speech last Friday, Prime Minister Theresa May confirmed that the UK will leave the Single Market, leave the customs union and leave the jurisdiction of the ECJ (European Court of Justice). Therefore, it should come as no surprise that the only remaining possible model is a free trade agreement. I hope that it will be ambitious and advanced – and we will do our best, as we did with other partners, such as Canada recently – but anyway it will only be a trade agreement.*
>
> *I propose that we aim for a trade agreement covering all sectors and with zero tariffs on goods. Like other free trade agreements, it should address services. And in fisheries, reciprocal access to fishing waters and resources should be maintained.*
>
> *[…]*
>
> *Our agreement will not make trade between the UK and the EU frictionless or smoother. It will make it more complicated and costly than today, for all of us. This is the essence of Brexit.*

Mae'r canllawiau drafft yn nodi bod Cyngor Ewropeaidd yn gobeithio cael perthynas mor agos â phosibl rhwng yr UE a'r DU ond bydd safbwynt presennol Llywodraeth y DU ar y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau yn cyfyngu ar ddyfnder partneriaeth yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau drafft yn cytuno â chynnig y Prif Weinidog y dylai masnach ar nwyddau ym mhob sector gael ei osod ar dariff sero heb unrhyw drefniadau cwota. Fodd bynnag, mae'n awgrymu bod hyn yn amodol ar fynediad cytbwys i ddyfroedd pysgota. Mae'r canllawiau drafft yn awgrymu y gellid cynnwys masnach mewn gwasanaethau ond o dan reolau gwladwriaeth wadd. Maent hefyd yn amlinellu y byddai gan yr UE ddiddordeb yn dod i gytundeb ar hawliau eiddo deallusol, hedfan a mynediad i raglenni ymchwil, arloesedd, addysg a diwylliant yr UE yn seiliedig ar yr amodau ehangach y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfranogiad trydydd parti yn y rhaglenni hyn. Mae'r canllawiau hefyd yn awgrymu y bydd yr UE yn ceisio dod i gytundeb ar gydweithredu heddlu a barnwrol a diogelwch ac amddiffyn. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn nodi y bydd angen i unrhyw gytundeb atal cystadleuaeth annheg o'r DU drwy bethau fel newid cyfreithiau ar drethiant neu leihau safonau amgylcheddol neu gymdeithasol. Mae'r canllawiau yn nodi bod rhaid parchu rôl Llys Cyfiawnder Ewrop hefyd.

Yn eu **cynnig drafft** ar fframwaith ar gyfer perthynas yn y dyfodol â'r UE, mae Senedd Ewrop yn mabwysiadu nifer o linellau caletach. Er nad oes gan Senedd Ewrop sedd ffurfiol wrth y bwrdd trafodaethau, bydd angen iddi gymeradwyo'r fargen derfynol. Mae Senedd Ewrop yn nodi yn ei chynnig drafft bod hyn yn cynnwys cytuno ar unrhyw fframwaith ar gyfer perthynas yn y dyfodol. Mae cynnig drafft Senedd Ewrop yn nodi:

- Dylai'r cytundeb yn y dyfodol fod yn seiliedig ar bedair colofn: masnach a chysylltiadau economaidd, polisi tramor ac amddiffyn, diogelwch mewnol a chydweithredu thematig ar feysydd fel ymchwil a hedfan.
- Dylai cytundeb yn y dyfodol gyfeirio at symud dinasyddion rhwng yr UE a'r DU.
- Mae'r Senedd yn parhau i fod o'r farn mai'r ateb gorau fyddai i'r DU aros yn aelod o'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau.
- Dylai rôl dehongli rhwymol Llys Cyfiawnder Ewrop fod yn gymwys ar draws pob sector gan gynnwys mewn cytundeb masnach rhydd â'r UE ac y dylai penderfyniadau a wnaed gan y Llys ar unrhyw anghydfod rhwng yr UE a'r DU fod yn rhwymol.
- Dylai safonau'r UE gael eu diogelu a dylai mynediad y DU i farchnad yr UE gyfateb â'r graddau y mae'r DU yn cynnal safonau rheoliadol yr UE. Mae'n galw am gynnwys cymal di-atchweliad ar safonau i'w cynnwys mewn cytundeb partneriaeth yn y dyfodol.
- Dylai'r mynediad i'r Farchnad Sengl hefyd fod yn amodol ar lefel y mynediad ar gyfer cychod yr UE i diroedd pysgodfeydd y DU.
- Bydd gadael y Farchnad Sengl yn golygu bod y DU yn colli pasbortio ar gyfer gwasanaethau ariannol ac y byddai sefyllfa bresennol y DU yn arwain at brofion tollau ar gyfer nwyddau.
- Cefnogi'r posibilrwydd o gydweithredu parhaus â'r DU ar hedfan, ymchwil, symudedd ieuenctid, ynni, materion amgylcheddol trawsffiniol, TGCh a seibr-ddiogelwch.
- Cefnogi cynigion y Comisiwn yn nhestun cyfreithiol drafft y Cytundeb Ymadael mewn perthynas â â Gogledd Iwerddon ac Iwerddon.

Bydd y testun drafft yn cael ei drafod gan Senedd Ewrop yn y **cyfarfod llawn** ddydd Mawrth 13 Mawrth.

## Deddfwriaeth y DU

Mae'r **Bil Sancsiynau ac Atal Gwyngalchu Arian**, a ddechreuodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Hydref 2017, yn darparu ar gyfer sefydlu gweithdrefn sancsiynau cenedlaethol ar ôl gadael yr UE. Cafodd y Bil ei feirniadu am roi pwerau creu rheoliadau eang i Weinidogion heb ddigon o waith craffu seneddol. Cafodd gwelliannau eu pasio yn Nhŷ'r Arglwyddi i osod y dibenion lle y gellid gwneud rheoliadau sancsiynau ac i gael gwared ar y pŵer i greu troseddau newydd drwy reoliadau. Daeth camau Tŷ'r Arglwyddi y Bil i ben ar 17 Ionawr. Pasiodd y Bil ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Chwefror a daeth trafodion y Cyfnod Pwyllgor i ben ar 6 Mawrth. Bydd y Bil yn mynd i'r Cyfnod Adrodd er mwyn craffu arno ymhellach.

Cafodd y **Bil Masnach ei adrodd i Dŷ'r Cyffredin heb unrhyw ddiwygiadau ar 1 Chwefror. Ni chafodd gwelliannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i'r Bil Masnach** eu derbyn yn y cyfnod pwyllgor. Mae **gwelliannau pellach** i'r Bil wedi'u cyflwyno cyn y Cyfnod Adrodd ond nid oes dyddiad ar gyfer y cyfnod adrodd wedi'i gyhoeddi eto. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys cymal a gyflwynwyd gan Jeremy Corbyn a fyddai'n sicrhau bod yn rhaid cael cydsyniad Gweinidogion datganoledig ar gyfer rheoliadau a wneir gan Weinidog y Goron sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Ar 12 Chwefror, cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn graffu** gyda Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar y Bil Masnach, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cysylltiedig Llywodraeth Cymru a phapur Llywodraeth Cymru, **Y Polisi Masnach: Materion Cymru**. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

> *First of all, I think the Bill as currently presented condescends. I also think that it introduces some incoherence and I'm not convinced that it deals with some critical proposals in an even-handed way. If I take that latter point first, in terms of the trade remedies authority, I don't think it's right that the Secretary of State should be the person with sole power and influence over the TRA. I think there is a role for Welsh Government and the other devolved administrations. In terms of incoherence, we now see, I think, a mismatch between the European Union (Withdrawal) Bill and the Trade Bill, and in terms of it being somewhat condescending, I think it gives UK Ministers a free hand to make rules in devolved areas without the consent of devolved Ministers, whereas UK Ministers have wider powers than it gives to devolved Ministers to make those same rules in devolved areas.*

Mae paragraff 16 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn datgan p'un a ddylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil Masnach neu beidio, bydd angen ei drafod yng nghyd-destun yr ymateb i'r gwelliannau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'u pryderon gyda'r Bil. Ar ôl gwrthod gwelliannau arfaethedig Llywodraeth Cymru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn dal i bwyso i'r gwelliannau gael eu derbyn. Fodd bynnag, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet na fyddai Llywodraeth Cymru yn cynghori'r Cynulliad i gydsynio'r Bil oni bai bod y Bil Masnach yn cael ei ddiwygio.

Disgwylir i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Masnach erbyn 16 Mawrth.

Adroddwyd ar y **Bil Trethiant (Masnach Trawsffiniol) hefyd yn Nhŷ'r Cyffredin heb welliannau. Ynghyd â'r Bil Masnach, bwriedir i'r Bil ganiatáu i'r DU barhau â'i pholisi masnach presennol cyhyd ag y bo modd ar unwaith ar ôl i'r DU adael yr UE, drwy ganiatáu i'r Llywodraeth greu cyfundrefn tollau, TAW a chyllid ar gyfer y DU. Mae gwelliannau** wedi cael eu cyflwyno cyn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ond nid yw'r dyddiad wedi'i gyhoeddi eto.

Daeth taith **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** drwy'r Tŷ'r Cyffredin i ben ar 17 Ionawr a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi y diwrnod canlynol. Dechreuodd Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi o'r Bil ar 21 Chwefror a threfnwyd ei fod yn eistedd am 11 diwrnod gyda'r diwrnod olaf ar 28 Mawrth ond gallai bara mwy na hynny. **Mae 438 o welliannau** i'r Bil wedi cael eu cyflwyno, gan gynnwys gwelliannau a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban na chafodd eu derbyn yn Nhŷ'r Cyffredin. Disgwylir i'r bleidlais ar welliannau gael ei chynnal ar ddiwedd y Cyfnod Pwyllgor pan fydd rhaid cytuno ar bob cymal o'r Bil.

Cafodd mater datganoli dipyn o sylw yn ystod diwrnod cyntaf dadl y Cyfnod Pwyllgor ar 21 Chwefror, gan fod yr Arglwyddi wedi trafod rôl deddfwrfeydd datganoledig o ran diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Cyflwynodd Arglwydd Foulkes o Cumnock welliant yn darparu na ddylai rheoliadau sy'n dod â'r gwaith o ddiddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 i rym gael eu gwneud tan fod y Prif Weinidog yn fodlon bod penderfyniadau wedi cael eu pasio gan y deddfwrfeydd datganoledig yn rhoi cydsyniad. **Gwrthododd yr Arglwydd Callanan, y Gweinidog DExEU, y gwelliant:**

> *I make it clear to noble Lords that we are committed to the devolution settlements and the conventions that have been established.*
>
> *But these amendments go further than Sewel; as my noble friend Lord Forsyth pointed out, they would prevent this Parliament exercising its sovereignty. They would require this Parliament to seek consent to legislate in some cases that are not within devolved responsibility and do not affect devolved competence. We believe in the importance of this Bill, which is in the interests of the whole of the UK, and will work to deliver it together with the devolved institutions. But it is also not right that one part of the United Kingdom can hold a veto over the decision taken, in the referendum, by the whole of the United Kingdom and risk the certainty this Government are committed to providing.*

Cafodd y gwelliant ei dynnu'n ôl ar ôl ddadl. Fodd bynnag, caiff gwelliannau a dynnir yn ôl mewn Pwyllgor yn aml eu hailgyflwyno ar gyfer pleidlais mewn ystyriaethau yn y Cyfnod Adrodd. O ran cymal 11, yr oedd Llywodraeth y DU wedi **ymrwymo yn flaenorol i'w ddiwygio yn Nhŷ'r Arglwyddi, dywedodd yr Arglwydd Callanan**:

> *The Scottish and Welsh Governments asked us to work with them to amend Clause 11, and that is exactly what we have been doing. Officials have worked extensively on proposals and Ministers discussed these in their recent bilaterals in February. We have preserved the space to engage in meaningful discussion and sought to reach agreement with the devolved Administrations. We have not yet tabled an amendment precisely because those discussions still continue. Our proposed amendment will be discussed, as a number of noble Lords have pointed out, at the Joint Ministerial Committee on EU Negotiations tomorrow.*

Dywedodd yr Arglwydd Callanan hefyd y byddai Llywodraeth y DU **yn sicr yn llunio gwelliant gerbron y Pwyllgor.**

Ar 22 Chwefror cyfarfu'r JMC (EN) ac, ymhlith pethau eraill, trafodwyd cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer gwelliannau cyfaddawd i gymal 11. **Roedd yr Hysbysiad** a gyhoeddwyd yn dilyn y cyfarfod yn nodi bod cynnydd wedi'i wneud o ran trafodaethau ar gymal 11 ond nad oedd cytundeb wedi'i wneud eto rhwng y tair llywodraeth ar ffurf gwelliant.

Ar 26 Chwefror, rhoddodd Gweinidog Swyddfa'r Cabinet David Lidington **araith** yn Airbus ym Mrychdyn a oedd yn egluro newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i gymal 11:

> *So our proposal is to amend the Bill before Parliament to make clear that while frameworks are being agreed, the presumption would now be that powers returning from the EU should sit at a devolved level.*
>
> *Westminster would only be involved where, to protect the UK common market or to meet our international obligations, we needed a pause – I stress pause - to give the governments time to design and put in place a UK-wide framework.*
>
> *As I have said before, we expect to be able to secure agreement with the devolved governments about what frameworks should - or should not - apply to each power.*
>
> *And where powers do need to be returned to a UK-wide framework, we will maintain the ability for the UK Parliament to legislate to do so.*
>
> *Just as the current provisions within the EU Withdrawal Bill on releasing powers to devolved governments are intended to be by consensus and agreement with the devolved governments themselves, so we should expect this new, inverted power to operate in the same way - by consensus and by agreement.*

Ar 27 Chwefror, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ei **Phapur Gorchymyn** ar gyfer Bil Amaethyddiaeth y DU y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn yr haf. Disgwylir i'r Bil sefydlu system cymorth amaethyddiaeth newydd ar ôl i'r DU adael Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE. Roedd ansicrwydd o ran sut bydd Bil Amaethyddiaeth y DU yn gweithredu o ran gosod fframweithiau'r DU ar gyfer amaethyddiaeth ac i ba raddau y bydd yn effeithio ar Gymru. Mae cylch gwaith y Papur Gorchymyn yn ymwneud â Lloegr yn unig gan fwyaf, ond nid yw'n cynnwys cwestiynau ar fframweithiau'r DU (adran 13) a masnach rhyngwladol (adran 14). O ran fframweithiau'r DU, mae'r Papur Gorchymyn yn nodi bod cynnydd da wedi'i wneud ar nodi lle mae angen dull cyffredin ac y bydd fframweithiau deddfwriaethol neu drefniadau mwy anffurfiol yn cael eu rhoi ar waith yn seiliedig ar angen.

## Dogfennau a Phapurau Sefyllfa

Ers cyhoeddi'r adroddiad monitro diwethaf, mae'r UE wedi cyhoeddi ei chyfarwyddebau negodi ar y cyfnod pontio, papur sefyllfa ar gymalau a awgrymir i'w cynnwys yn y Cytundeb Ymadael a chyfres o gyflwyniadau a wnaed fel rhan o'r trafodaethau mewnol anffurfiol ar berthynas yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu i'r tabl isod.

**Tabl 1 Papurau Sefyllfa a dogfennau allweddol a gyhoeddwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'r DU**

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Essential Principles on Citizens Rights<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Yn amlinellu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd ar hawliau dinasyddion y DU yn yr Undeb Ewropeaidd a hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y DU. | Safeguarding the position of EU citizens in the UK and UK nationals in the EU: Position Paper.<br>26 Mehefin 2017 | Mae'n nodi safbwynt y DU ar yr hawliau y dylai dinasyddion yr UE eu mwynhau yn y DU a'r hawliau y dylai dinasyddion y DU eu mwynhau yn yr UE. Gallwch ddarllen erthygl blog y Gwasanaeth Ymchwil am ragor o fanylion. |
| Essential Principles on the financial settlement<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Mae'n nodi cynigion y DU ar gyfer y fethodoleg y dylid cytuno arni yn ystod trafodaethau Cam 1 ar sut y dylid cyfrifo rhwymedigaethau ariannol y DU i'r UE. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o asiantaethau, cyrff ac offerynnau ariannol i'w cynnwys yn y fethodoleg. | Dim. | Mae Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ymadael â'r UE wedi amlinellu y bydd y DU yn cwestiynu sefyllfa'r DU yn hytrach na phennu'r sefyllfa ei hun. |
| Nuclear material and safeguard equipment (Euratom)<br>23 June 2017 to EU27<br>13 July to UK | Mae'n nodi cynigion yr UE ar gyfer trin a throsglwyddo perchnogaeth o ddeunyddiau ymholltol arbennig. Mae'n cwmpasu llai o ardaloedd nag a gynigir gan y DU mewn papur cyfatebol | Nuclear material and safeguards issues. | Mae Llywodraeth y DU yn nodi chwe egwyddor y mae'n awyddus i drafodaethau am y materion hyn eu cyflawni. Mae'n trafod thrai meysydd ychwanegol i'r rhai a drafodir gan y Comisiwn Ewropeaidd gan gynnwys contractau presennol ar gyfer cyflenwi deunydd niwclear a gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol. Mae'r DU |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | yn nodi y dylai gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol barhau i fod yn gyfrifoldeb y Wladwriaeth lle y cawsant eu cynhyrchu ar ôl ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. |
| Judicial cooperation in civil and commercial matters<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 July to UK | Yn amlinellu cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael. | Providing a cross-border civil judicial framework: a future partnership paper<br>22 Awst 2017 | Mae Llywodraeth y DU wedi gosod ei sefyllfa ar gyfer y gweithdrefnau y dylai fod yn berthnasol mewn achosion sy'n aros am ddedfryd ar ddyddiad ymadael y DU a chynigion ar gyfer cydweithredu parhaus yn y maes hwn mewn un papur. Mae'r papur yn nodi bod Atodiad A yn ymateb yn uniongyrchol i bapur yr Undeb Ewropeaidd ac yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth y DU os na chytunir ar bartneriaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi nad dim cytundeb ar gydweithredu yn y dyfodol yw ei ddewis. Mae'r papur yn nodi y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dod ag awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop i ben ond y |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | bydd y DU yn ceisio dod i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn caniatáu cydweithredu barnwrol sifil trawsffiniol clos a chynhwysfawr. |
| Ongoing Police and Judicial cooperation in criminal matters<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 July to UK | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a fydd yn cymhwyso gweithdrefnau parhaus fel, gorchmynion ymchwilio Ewropeaidd a gweithdrefnau Gwarantau Arestio Ewropeaidd ar y dyddiad y bydd y DU yn ymadael, a sut y bydd y wybodaeth a geir drwy'r gweithdrefnau hyn yn cael ei thrin. | Security law enforcement and criminal justice: Future Partnership Paper | Mae Atodiad A o'r papur yn cynnig ymateb uniongyrchol i'r materion a nodwyd gan yr UE yn ei phapur. Fodd bynnag, mae'r DU yn argymell y dylid cynnal trafodaethau ar faterion troseddol a fydd yn codi yn sgil ymadael yng nghyd-destun trafodaethau ar bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn galw am berthynas ddyfnach a chydweithrediad ar faterion yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd na'r hyn sydd gan yr Undeb Ewropeaidd gyda gwledydd trydydd parti ar hyn o bryd. Noda y dylid ei ddarllen ar y cyd â phapurau eraill ar y bartneriaeth yn y dyfodol yn ymwneud â diogelwch a diogelu data. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Ongoing Union and Judicial Procedures<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 July to UK | Mae'n nodi'r cynigion ar gyfer gweithdrefnau i'w rhoi ar waith ar gyfer achosion sydd gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop sy'n ymwneud â'r DU neu breswylwyr/personau cyfreithiol y DU sy'n mynd rhagddynt pan fydd y DU yn ymadael ar gyfer cynigion ar gyfer gweithdrefnau gweinyddol parhaus gerbron sefydliadau, cyrff, swyddfeydd ac asiantaethau'r Undeb sy'n ymwneud â'r DU neu breswylwyr/personau cyfreithiol y DU. Cynigiodd yr UE y dylai'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd gadw rhywfaint o gymhwysedd i ddyfarnu mewn achosion a ddygir yn erbyn y DU ar ôl iddi ymadael sy'n ymwneud â materion a ddigwyddodd pan oedd y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth. | Ongoing union judicial and administrative proceedings: Position Paper.<br>13 Gorffennaf 2017 | Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd rhai achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael y dylent barhau i fod o fewn awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop ac mae'n ceisio cytuno ar feini prawf ar gyfer diffiniad o 'aros am ddedfryd'. Mae hefyd yn gofyn am eglurhad o rôl Eiriolwr Cyffredinol y DU a chyfreithwyr y DU yn y Llys yn ystod cyfnod pontio tra bod achosion yn dal i aros am ddedfryd. Nid yw'n cytuno y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw rhywfaint o gymhwysedd dros achosion a ddygwyd ar ôl y dyddiad ymadael yn ymwneud â phethau a ddigwyddodd cyn y dyddiad gadael. |
| Issues relating to the functioning of EU Institutions, Agencies and Bodies<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 I'R DU | Mae'r papur yn nodi sefyllfa'r UE ar ba amddiffyniadau ac imiwneddau a fydd yn berthnasol i sefydliadau ac asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU ar ôl iddi ymadael tra bod gweithgareddau cyrff yr Undeb Ewropeaidd yn y DU | Privileges and Immunities<br>13 Gorffennaf 2017 | Mae papur sefyllfa'r DU yn cytuno y dylid cynnig amddiffyniad a breintryddid i eiddo, asedau a gweithrediadau'r UE yn y DU am gyfnod trosiannol ar ôl ymadael. Mae negodwyr ar y ddwy ochr wedi nodi eu bod yn |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | yn cael eu dirwyn i ben. | | agos at gyrraedd cytundeb ar y mater hwn. |
| Llywodraethu<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur hwn yn nodi cynigion yr UE ar gyfer dull o ddatrys anghydfod ar gyfer y Cytundeb Ymadael, gan gynnwys sefydlu Cyd-bwyllgor i drafod anghydfodau. Dywed y dylai'r Cyd-bwyllgor gyfeirio achosion at Lys Cyfiawnder Ewrop am benderfyniadau rhwymol pan na ellir dod i gytundeb yn y Pwyllgor. Noda y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd gadw pwerau llawn ar gyfer monitro a gweithredu'r cytundeb ar hawliau dinesydd. | Enforcement and Dispute resolution: Future Partnership Paper<br>23 Awst 2017 | Mae'r Papur yn cynnwys cynigion ar gyfer mecanwaith gorfodi a datrys anghydfodau newydd ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn nodi y bydd angen mecanwaith newydd gan y bydd awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben. Safbwynt y DU yw, pan fo'r Cytundeb Ymadael neu unrhyw drefniadau partneriaeth yn y dyfodol yn arwain at hawliau neu rwymedigaethau ar gyfer unigolion a busnesau sy'n gweithredu yn y DU, bydd y rhain yn dod i rym yng nghyfraith y DU ac yn cael eu gorfodi gan lysoedd y DU. Mae'r papur sefyllfa yn dadlau nad oes cynsail na gorfodaeth yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd na'r DU sy'n datgan bod yn rhaid i orfodi neu ddatrys anghydfod ddod o dan awdurdodaeth uniongyrchol Llys |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | Cyfiawnder Ewrop. |
| Goods placed on the market under Union law before the withdrawal date<br>29 Mehefin 2017 i'r UE<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi'r cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau sy'n cydymffurfio â holl reolau'r Undeb ac yn cael eu rhoi ar y farchnad i'w gwerthu cyn y dyddiad ymadael ond nad ydynt wedi'u gwerthu ar y dyddiad ymadael. | Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper<br>21 Awst 2017 | Mae Llywodraeth y DU yn nodi y dylid datrys y mater hwn drwy gyfeirio at unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r DU yn gofyn am drafodaeth bellach ar ystyr "rhoi ar y farchnad" ac mae'n awgrymu y dylai gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau. |
| Customs related matters needed for an orderly withdrawal of the UK from the Union<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau tollau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau y mae eu symudiad wedi dechrau cyn y dyddiad ymadael ond yn dod i ben ar neu ar ôl hynny. | Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper<br>21 Awst 2017<br>Future customs arrangements: Future Partnership Paper<br>15 Awst 2017 | Mae papur sefyllfa'r DU ar barhad argaeledd nwyddau yn cydnabod y bydd angen mynd i'r afael â materion tollau sy'n ymwneud â nwyddau ar y farchnad ar adeg ymadael ond mae'n gwneud hynny mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer perthynas dollau yn y dyfodol ac yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r mater drwy drafodaethau am bartneriaeth ar gyfer yn y dyfodol. |
| Guiding Principles transmitted to EU 27 for the Dialogue on Ireland/Northern Ireland.<br>7 Medi i EU 27 | Egwyddorion a nodir ar gyfer sail trafodaethau am y berthynas rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Ni chynigir unrhyw ddatrysiadau ar gyfer ffin Iwerddon | Northern Ireland and Ireland: Position Paper<br>16 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn nodi y dylai'r Ardal Deithio Gyffredin (CTA) rhwng Iwerddon a'r DU aros, y dylid gwneud cynnydd cyflym ar y mater ac na fydd |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | ac mae'r papur yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y DU i gynnig atebion. | | hawliau dinasyddion yr UE yn Iwerddon yn cael eu heffeithio gan barhad y CTA. Nid yw'r papur yn cynnig opsiynau penodol ar gyfer y ffiniau tir ond mae'n nodi egwyddorion i brofi modelau yn eu herbyn. Mae'n croesgyfeirio at gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trefniadau tollau yn y dyfodol. Noda na ddylai unrhyw ateb y cytunir arno ei gwneud yn ofynnol i gael ffiniau tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Gwna gynigion penodol ar gynhyrchion bwyd-amaeth. Awgryma y dylid cael cytundeb i barhau â chyllid PEACE ar gyfer Gogledd Iwerddon a siroedd ffiniol Iwerddon a hynny ar wahân i'r trafodaethau ehangach ar y setliad ariannol. |
| **Caffael Cyhoeddus**<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ar gyfer y rheolau a'r gweithdrefnau ar gaffael cyhoeddus a ddylai fod yn berthnasol i weithdrefnau caffael a chontractau sy'n parhau ar y dyddiad ymadael. | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Intellectual Property Rights (including geographical indications)<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cytuno ar gynigion ar gyfer parhad amddiffyn hawliau eiddo deallusol cyn dyddiad ymadael gan gynnwys amddiffyn enwau bwydydd gwarchodedig. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn awgrymu y bydd angen i'r ddeddfwriaeth ddomestig newydd gael ei sefydlu yn y DU cyn y dyddiad ymadael mewn perthynas ag enwau bwyd gwarchodedig. | Dim | |
| Use of Data and Protection of Information Obtained or Processed before the Withdrawal Date<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ynglŷn â'r rheolau a'r amddiffyniadau cyfatebol a ddylai fod yn berthnasol i ddata a gedwir neu a brosesir yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl y dyddiad ymadael. | Confidentiality and access to documents: Position Paper<br>21 Awst 2017 | Mae'r papur yn nodi mai'r nod ddylai fod i'r Cytundeb Ymadael sicrhau bod gan y DU a'r Undeb Ewroepaiddd amddiffyniadau a rhwymedigaethau cyfatebol ar wybodaeth a mynediad i ddogfennau fel sy'n bodoli ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | Future Customs Arrangements: Future partnership paper<br>15 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn cynnig dau opsiwn posibl ar gyfer perthynas yn ymwneud â thollau yn y dyfodol. Trefniant tollau wedi'i symleiddio'n sylweddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaid neu bartneriaeth tollau newydd |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | gyda'r Undeb Ewropeaidd lle byddai'r DU yn cysoni ei ffin â'r Undeb Ewropeaidd mewn ffordd sy'n golygu y byddai'n dileu'r angen am ffiniau tollau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Byddai'r DU yn gadael yr undeb tollau ac yn gallu negodi ei chytundebau masnach ei hun o dan y ddau opsiwn.<br>O dan yr ail opsiwn, mae'r papur sefyllfa yn cynnig y byddai'r DU yn adlewyrchu gofynion yr UE ar gyfer nwyddau o weddill y byd lle mae'r UE yw eu lleoliad terfynol. Noda y byddai hyn yn ddigynsail a gallai fod yn heriol i'w weithredu ond mae'n dymuno ei drafod gyda'r Undeb Ewropeaidd.<br>Mae'r papur yn cynnig model cyfyngedig o ran amser ar gyfer cysylltiad agos ag undeb Tollau yr Undeb Ewropeaidd am gyfnod pontio er mwyn osgoi sefyllfa 'ymyl clogwyn' i fusnesau ac unigolion ar y ddwy ochr. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Dim | | The exchange and protection of personal data: Future partnership paper<br>24 Awst 2017 | Mae'n nodi cynigion Llywodraeth y DU am fodel newydd rhwng y DU a'r UE ar gyfer cyfnewid a diogelu data personol yn seiliedig ar ddull presennol yr UE. Mae'n awgrymu y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth barhau i gydweithio â rheoleiddwyr yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | Collaboration on Science and innovation: Future partnership paper<br>6 Medi 2017 | Mae'n nodi cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cytundeb gwyddoniaeth ac arloesi â'r UE. Noda y dylai'r cytundeb fod yn eang a galluogi meysydd ymchwil newydd. Noda y bydd angen negodi mynediad parhaus y DU i raglenni ymchwil ac arloesi'r Undeb Ewropeaidd ynghyd â maint unrhyw gyfraniad ariannol y byddai'n rhaid i'r DU ei wneud i gymryd rhan ynddynt. Mae'n nodi y byddai angen cydbwyso'r cyfraniad hwn yn erbyn blaenoriaethau gwariant eraill Llywodraeth y DU. Cyfeirir at gyfranogiad Prifysgolion Cymru |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | mewn rhaglenni a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes. |
| Dim | | Foreign Policy, defence and development: Future partnership paper<br>12 Medi 2017 | Mae'r papur yn cynnig partneriaeth yn y dyfodol â'r UE ar ddiogelwch ac amddiffyn sy'n ehangach nag unrhyw gytundeb sydd gan yr UE ar hyn o bryd â gwlad trydydd parti. Mae'n nodi'r meysydd lle mae cydweithrediad ar amddiffyniad, diogelwch a datblygiad rhyngwladol ar hyn o bryd. |
| Dim | | Customs Bill White Paper: legislating for UK's future customs, VAT and excise regimes<br>9 Hydref 2017 | Mae'r Papur Gwyn ar y Bil Tollau yn nodi cynigion cychwynnol Llywodraeth y DU ar gyfer system annibynnol ar gyfer tollau tramor, TAW a thollau cartref ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer senario wrth gefn os na ddeuir i gytundeb gyda'r Undeb Ewropeaidd ar berthynas fasnachol ar gyfer y dyfodol. |
| Dim | | Preparing for our future UK trade policy<br>9 Hydref 2017 | Mae'r papur gwyn ar y polisi masnach yn nodi'r safbwyntiau a ffefrir gan Lywodraeth y DU ar |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | gyfer polisi masnach newydd, ac yn nodi pa ddeddfwriaeth fydd ei hangen i weithredu'r polisi hwnnw. Mae'r papur yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer polisi masnachu newydd. |
| **Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd** - ar y cynnydd a wnaed yn y trafodaethau - 20 Hydref | Daeth y Cyngor i'r casgliad na wnaed digon o gynnydd yn y trafodaethau ar y Cytundeb Ymadael i ddechrau ar drafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol. Rhoddodd fanylion am ble y mae angen rhagor o gynnydd. Nododd hefyd y byddai paratoadau mewnol rhwng y 27 Aelod-wladwriaeth sy'n weddill ar gyfer trafodaethau ar berthynas fasnachol yn y dyfodol yn dechrau. | Dim | |
| Dim | | **Sanctions and Anti-Money Laundering Bill** 19 Hydref | Ystyrir bod y Bil yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall y DU weithredu trefn sancsiynau ryngwladol yn dilyn ei hymadawiad o'r UE. |
| Dim | | **Technical Note: citizen's rights administrative procedures in the UK** - 7 Tachwedd | Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o fanylion ynghylch sut y bydd y system ar gyfer gwneud cais am breswyliaeth barhaol yn y DU ar gyfer dinasyddion yr |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | Undeb Ewropeaidd yn gweithio. Anfonwyd hwn fel papur technegol at y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Dim | | *Trade Bill 2018*<br>7 Tachwedd | Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Gweinidog wneud newidiadau i gyfraith ddomestig y DU i weithredu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael y Llywodraeth, ac unrhyw newidiadau angenrheidiol os bydd y DU yn dyblygu rhai o gytundebau presennol yr UE â gwledydd trydydd parti. Mae hefyd yn darparu camau i sefydlu Awdurdod Cymhorthion Masnach newydd, ac mae'n rhoi pwerau a dyletswyddau newydd mewn cysylltiad â data a gwybodaeth i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi o ran allforio a masnach. |
| Joint Report gan negodwyr yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar gynnydd yn ystod Cam 1 o drafodaethau o dan EUU Erthygl 50 ar ymadawiad trefnus y DU o'r UE | Daeth yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU i gytundeb mewn egwyddor ar y meysydd o dan ystyriaeth yn ystod cam cyntaf y trafodaethau, gan alluogi sgyrsiau i symud i'r cam nesaf. | Adroddiad ar y Cyd<br>8 Rhagfyr 2017 | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| 8 Rhagfyr 2017 | Mae'r adroddiad yn nodi'r sefyllfa y cytunwyd arni ar amddiffyn hawliau dinasyddion yr Undeb yn y DU a dinasyddion y DU yn yr Undeb; y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw yng Ngogledd Iwerddon; a'r setliad ariannol. | | |
| Nodyn Cyfathrebu gan y Comisiwn i'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ar y sefyllfa o ran cynnydd y trafodaethau gyda'r DU o dan Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd<br>8 Rhagfyr 2017 | Yn seiliedig ar yr Adroddiad ar y Cyd gan negodwyr yr UE a Llywodraeth y DU, argymhellodd y Comisiwn wrth y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) y dylai ddod i gasgliad bod cynnydd digonol wedi'i wneud yng nghyfnod cyntaf y trafodaethau. | | |
| Dim | | Prime Minister's Commitments to Northern Ireland<br>8 Rhagfyr 2017 | Nododd y Prif Weinidog Theresa May chwe ymrwymiad allweddol i Ogledd Iwerddon a oedd yn ei harwain yn y trafodaethau â'r UE. |
| Canllawiau y Cyngor Ewropeaidd<br>15 Rhagfyr 2017 | Yn dilyn y penderfyniad bod digon o gynnydd wedi'i wneud, cyhoeddodd y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ganllawiau drafft i symud i ail gam y trafodaethau, pan drafodir y cyfnod trosiannol a'r fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Supplementary negotiating directives<br>20 Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddebau atodol ar gyfer trafod cytundeb â'r DU sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ei hymadawiad o'r UE. | Dim | |
| Slides on Fisheries<br>17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar bysgodfeydd i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on Aviation<br>17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar hedfan i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on Governance<br>19 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar lywodraethu i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on Security, Defence and Foreign Policy<br>24 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar ddiogelwch, amddiffyn a pholisi tramor i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on Police and Judicial Cooperation in criminal matters<br>24 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar yr heddlu a chydweithrediad barnwrol i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Council (Article 50) negotiating directives on the transition period | Cyfarwyddebau gan y Cyngor Ewropeaidd yn egluro'r canllawiau ar gyfer trafod y cynllun pontio | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| 29 Ionawr 2018 | gyda'r DU | | |
| Slides on a Level Playing Field<br>31 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar sicrhau amodau teg a chyfartal i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on Services<br>6 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar wasanaethau i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on International Agreements and Trade Policy<br>6 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar gytundebau rhyngwladol a pholisi masnach i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Position Paper on Transitional Arrangements in the Withdrawal Agreement<br>7 Chwefror 2018 | Papur yn amlinellu'r testun cyfreithiol posibl yn ymwneud â'r cyfnod pontio, i'w gynnwys yn y Cytundeb Ymadael. | Ymateb i'r Papur Sefyllfa ar Drefniadau Pontio yn y Cytundeb Ymadael<br>21 Chwefror 2018. | Ymateb i welliannau a awgrymir i'r papur sefyllfa a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Slides on Transport<br>21 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar drafnidiaeth i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim. | |
| Slides on Mobility<br>21 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar symudedd i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim. | |
| Slides on regulatory issues<br>21 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar faterion rheoleiddio i hyrwyddo trafodaethau paratoadol | Dim. | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | | |
| Brexit preparedness document rail transport<br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau y DU yn gadael yr UE ar drafnidiaeth rheilffyrdd. | Dim. | |
| Brexit preparedness document consumer protection and passenger rights<br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau y DU yn gadael yr UE ar ddiogelwch defnyddwyr a hawliau teithwyr. | Dim. | |
| Brexit preparedness document animal health and welfare<br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau y DU yn gadael yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid. | Dim. | |
| Brexit preparedness document maritime transport<br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau y DU yn gadael yr UE ar drafnidiaeth forol. | Dim. | |
| Draft legal text on the Withdrawal Agreement<br>28 Chwefror 2018 | Erthyglau drafft a chymalau ar gyfer testun cyfreithiol i weithredu'r cytundeb a geir rhwng yr UE a'r DU ar Ymadael. | Dim. | |
| European Council draft negotiation guidelines on a framework for a future partnership<br>7 Mawrth 2018 | Canllawiau a awgrymir gan y Cyngor i'r Comisiwn ar gytuno ar fframwaith ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol rhwng yr UE a'r DU. | Dim. | |

# 2.Materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

O gofio gwaith y Pwyllgor ar fonitro Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), yr hyn fydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor fydd tynged trafodaethau pellach ar welliannau i gymal 11 a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno bil 'parhad' brys, ***Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)*** i'r Cynulliad.

Ar 5 Mawrth, cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid** lle roeddent yn ystyried trafodaethau'r JMC (EN) a Bil Llywodraeth Cymru. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor pe byddai'r tair llywodraeth yn cytuno ar welliant i gymal 11 y Bil Ymadael, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn ceisio parhau i hyrwyddo Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru). Dywedodd hefyd fod JMC (EN) arall yn cael ei drefnu ar gyfer 8 Mawrth ond nododd ei bod yn annhebygol y gallai'r cyfarfod ddod i ben â chytundeb terfynol ar gymal 11:

> *Do I currently think that we're likely to be in a position by the end of Thursday where I could come to the Assembly next Tuesday and say, 'No need to worry about that continuity Bill; forget that, because we've got everything all agreed'? I'd be surprised if we've managed to make as much progress as that.*

O ystyried gwaith y Pwyllgor ar Borthladdoedd a'r pryderon a fynegwyd ynghylch goblygiadau posibl ar gyfer Porthladdoedd Cymru yn sgil ffin galed ym Môr Iwerddon, bydd cyhoeddi testun drafft y cytundeb cyfreithiol ar Ymadael gan y Comisiwn Ewropeaidd o ddiddordeb penodol. Byddai sefyllfa "disgyn yn ôl" y Comisiwn, a gefnogir gan Senedd Ewrop, er mwyn i Ogledd Iwerddon barhau i fod yn rhan o'r undeb tollau yn creu ffin ym Môr Iwerddon a fydd yn cael goblygiadau i borthladdoedd a busnesau Cymru. Yn ei haraith, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r DU yn gadael yr undeb tollau ond dywedodd y byddai'r DU yn ceisio dod i gytundeb tollau gyda'r UE. Bydd canlyniadau unrhyw drafodaethau yn cael effaith ar y mater hefyd.

Mae araith 2 Mawrth y Prif Weinidog, cyhoeddi canllawiau negodi drafft Cyngor Ewropeaidd ar y fframwaith ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol a chynnig drafft Senedd Ewrop ar yr un pwnc yn ddiau yn berthnasol i ymchwiliad y Pwyllgor i Berthynas Cymru â'r UE yn y Dyfodol. Clywodd y Pwyllgor yn ei gynhadledd i randdeiliaid ar yr ymchwiliad ac mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gafodd, fod rhanddeiliaid am i Gymru a'r DU barhau i fod yn aelod o sawl asiantaeth allweddol yr UE. Dywedodd y Prif Weinidog yn ei haraith y byddai Llywodraeth y DU yn ceisio cael aelodaeth gyswllt mewn asiantaethau fel yr Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd, yr Asiantaeth Cemegolion Ewropeaidd a'r Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewropeaidd. Awgrymodd nifer o randdeiliaid yn eu tystiolaeth hefyd y dylai Cymru a'r DU geisio parhau i gydweithio â'r UE ar arloesedd ac ymchwil. Sonnir am bartneriaeth bosibl yn y maes hwn yn y tair dogfen. Sonnir hefyd am fynediad i ddyfroedd pysgota yn y tair dogfen gyda'r testunau drafft a gyhoeddwyd gan Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd gan awgrymu bod lefel y mynediad marchnad y bydd y DU yn ei gael yn dibynnu ar fynediad i gychod yr UE i ddyfroedd y DU. Galwodd nifer o randdeiliaid Cymru yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor am i'r DU gynnal safonau rheoliadol ar ôl gadael ac i'r DU sicrhau harmoneiddio rheoliadol â'r UE. Yn ei haraith dywedodd y Prif Weinidog:

> *The UK will need to make a strong commitment that its regulatory standards will remain as high as the EU's. That commitment, in practice, will mean the UK and EU regulatory standards will remain substantially similar in future.*

Mae Senedd Ewrop yn ei thestun drafft yn galw am gynnwys cymal di-atchweliad:

> *Believes that maintaining a level playing field that includes a non-regression clause is necessary, preventing the UK the lowering the relevant standards while fully preserving the autonomy of EU decision-making.*

Mae testun canllawiau drafft y Cyngor Ewropeaidd yn nodi:

> *The aim should be to prevent unfair competitive advantage that the UK could enjoy through undercutting levels of protection with respect to competition and state aid, tax, social, environmental and regulatory measures and practices. This will require a combination of substantive rules aligned with EU and international standards, adequate mechanisms to ensure effective implementation domestically, enforcement and dispute settlement mechanisms in the agreement as well as Union autonomous remedies, that are all commensurate with the depth and breach of EU-UK economic connectedness.*

# Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn dilyn y JMC (EN) ar 22 Chwefror, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid **ddatganiad** ar 27 Chwefror lle dywedodd:

> *Er y bu gwaith trylwyr ar y gweill ar lefel swyddogol ers rhai wythnosau, roeddem ni'n siomedig na allai Llywodraeth y DU gyflwyno cynnig dim ond yn fuan iawn cyn y cyfarfod ddydd Iau. Roedd hyn yn golygu nad oeddem wedi gallu trafod y cynigion yn llawn ac yn ystyrlon mewn modd yr oedd pwysigrwydd y mater hwn yn ei deilyngu.*

Yn sgil y methiant i ddod i gytundeb â Llywodraeth y DU, ar 27 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau i gyflwyno Bil 'parhad' brys, ***Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)***. Cyhoeddwyd fersiwn drafft o'r Bil ar wefan Llywodraeth Cymru a chyhoeddodd Llywydd y Cynulliad **ei phenderfyniad** yn nodi, yn ei barn hi, bod y Bil o fewn cymhwysedd, ynghyd â **datganiad** yn nodi'r materion a ystyriodd cyn dod i'w phenderfyniad.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad i'r wasg** yn egluro pam ei bod yn parhau â'r Bil:

> *Yr opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio o hyd yw i Lywodraeth y DU ddiwygio ei Bil Ymadael arfaethedig. Ond gan fod cymaint o amser wedi pasio heb unrhyw gytundeb rhwng y llywodraethau ar y diwygiadau gofynnol, mae angen bwrw ymlaen â'r Bil Parhad fel ail ddewis i amddiffyn datganoli yng Nghymru.*

Ar yr un diwrnod, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban gerbron Senedd yr Alban **Bil y DU yn Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad Cyfreithiol) (yr Alban)**. Mae Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban wedi llunio **crynodeb o ddarpariaethau allweddol yn y Bil.**

Ar 6 Mawrth, cytunodd Aelodau'r Cynulliad y bydd Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) yn cael ei drin fel Bil Brys a chytunodd bod yr **amserlen** i gael ei ystyried. Gellir gweld canllaw i Filiau Brys, a ysgrifennwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad, **yma**.

Yn dilyn cytundeb y Cynulliad i drin y Bil fel deddfwriaeth frys, ar 7 Mawrth cafodd **Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)** ei gyflwyno'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ynghyd â **Memorandwm Esboniadol** y Bil. Yn ôl **Llywodraeth Cymru**, nodau'r Bil yw:

– diogelu cyfraith yr UE yn ymwneud â meysydd datganoledig ar ôl Brexit;

– galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod deddfwriaeth sy'n trafod y pynciau hyn yn gweithio'n effeithiol ar ôl Brexit ac ar ôl i'r Bil Ymadael ddiddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

– galluogi Gweinidogion Cymru i ddeddfu er mwyn cynnal aliniad rheoleiddiol gyda'r UE;

– sicrhau bod yn rhaid i Weinidogion Llywodraeth y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o fewn cwmpas cyfraith yr UE o fewn cymhwysedd datganoledig.

Mae Bil Llywodraeth Cymru wedi'i ddrafftio'n wahanol i Fil Ymadael Llywodraeth y DU. Mae'r Bil Ymadael yn darparu ar gyfer diogelu corff cyfan o gyfraith Ewropeaidd, a'i drosi'n gyffredinol i gyfraith ddomestig yr DU. Disgrifia hynny fel cyfraith yr UE a ddargedwir (retained EU law). Nid yw Bil Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer y trosiad cyffredinol hwn. Yn hytrach, mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod cyfraith yr UE sy'n cwmpasu pynciau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael eu diogelu fel rhan o'r gyfraith yng Nghymru ar ôl ymadael. Yn ogystal, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu cyfraith yr UE o fewn cymhwysedd datganoledig; ond yn ddarostyngedig i nifer o gyfyngiadau a fwriadwyd i gyfyngu'r newidiadau i'r hyn sydd ei angen yng ngoleuni gadael yr UE.

Bydd y corff newydd o gyfraith yr UE a gaiff ei drosi gan y Bil hwn yn disgyn y tu allan i'r diffiniad o 'retained EU law' yn y Bil Ymadael. O ganlyniad, ni fyddai'r cyfyngiadau ar y Cynulliad a Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addasu cyfraith yr UE a ddargedwir – gan gynnwys y cyfyngiadau yng nghymal 11 o'r Bil Ymadael, a ddisgrifir uchod – bellach yn gymwys.

Nid yw Bil Llywodraeth Cymru yn disodli'r Bil Ymadael. Yn hytrach, bydd y Bil yn gweithredu ochr yn ochr â Bil Llywodraeth y DU. Bydd unrhyw gyfraith yr UE na chaiff ei dargadw neu ei hailddatgan mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, er enghraifft, darpariaethau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, yn cael eu cwmpasu gan y Bil Ymadael a'u trosi i'r gyfraith ddomestig fel cyfraith yr UE a ddargedwir.

Yn dilyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid **ddatganiad ysgrifenedig** lle dywedodd:

> *Yr opsiwn a ffefrir gennym o hyd yw gweld gwelliannau i'r Bil i Ymadael â'r UE er mwyn iddo weithredu'n deg ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyfan. Er ein bod yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau'r gwelliannau hyn - ac yn wir rydym wedi symud ymlaen cryn dipyn dros yr wythnosau diwethaf - rydym eto i ddod i gytundeb.*
>
> *Dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n anghyfrifol i ni fethu â pharatoi ar gyfer sefyllfa o weld y Cynulliad yn gwrthod rhoi cydsyniad i'r Bil i Ymadael â'r UE. Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn opsiwn wrth gefn i sicrhau parhad deddfwriaethol yng*

*Nghymru mewn ffordd sy'n parchu'r setliad datganoli. Rhaid i ni barhau i gael sicrwydd cyfreithiol i fusnesau a dinasyddion Cymru ar ôl i'r DU ymadael â'r UE – bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn ffordd o ddarparu'r sicrwydd cyfreithiol hwnnw.*

*Un peth sy'n sicr - dydy'r Bil hwn ddim yn atal nac yn rhwystro Brexit.*

Mae ystyriaeth Cyfnod 1 o egwyddorion cyffredinol y Bil wedi'i drefnu ar gyfer 13 Mawrth. Mae **Crynodeb o'r Bil** wedi'i baratoi gan y Gwasanaeth Ymchwil a'r Gwasanaethau Cyfreithiol.